Hefyd, adroddir ar wasanaethau Mewngymorth CAMHS unigol yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru fel rhan o Fframwaith Perfformiad y GIG. Adroddir ar gynnydd ddwywaith y flwyddyn ym mis Hydref (gan gwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi) a mis Ebrill (gan gwmpasu'r cyfnod blaenorol rhwng mis Hydref a diwedd mis Mawrth). Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn amrywiol ac yn gwneud cymariaethau ar draws meysydd anodd gan ddarparu amrywiaeth o wybodaeth ansodol a meintiol. Y flaenoriaeth ar gyfer y misoedd i ddod yw gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd i adolygu'r broses o gasglu data a safoni'r amrywiaeth o wybodaeth a ddarperir er mwyn cysoni a chymharu. Rydym yn gobeithio y gellir cwblhau'r gwaith hwn er mwyn llywio cyfnod adrodd mis Hydref 2024.

Hefyd, un o brif argymhellion yr adolygiad CAHMS a gynhaliwyd gan y Tîm Perfformiad a Sicrwydd oedd adolygu'r canllawiau presennol a datblygu manyleb gwasanaeth CAMHS ar gyfer Cymru a fydd yn helpu i sicrhau mynediad teg, mesur ansawdd a chanlyniadau a lleihau amrywiadau. Mae Gweithrediaeth y GIG wedi

gweithio gyda nifer o bartneriaid, gan gynnwys clinigwyr, rheolwyr, sefydliadau yn y trydydd sector, rhieni a gofawyr, i ddatblygu dogfen sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth, canllawiau clinigol a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r ddogfen hon yn destun ymgynghoriad â swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid, gan gynnwys y Byrddau Iechyd, ar hyn o bryd a bydd yn cynnwys y gwasanaeth Mewngymorth o fewn ei chwmpas.

Er gwaethaf y broses adrodd anghyson hyd yma, mae'r cyfnod adrodd diwethaf wedi dangos y cynnydd canlynol ar draws y byrddau iechyd.

BIPAB – Mae'r mwyafrif o ysgolion yng Ngwent wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth mewngymorth drwy ymgynghori, gwaith grŵp a hyfforddiant. Dim ond ychydig o ysgolion cynradd a darpariaethau amgen nad ydynt wedi ymgysylltu o gwbl, ond anfonwyd gwybodaeth atynt.

Mae slotiau bob pythefnos wedi'u neilltuo i ysgolion uwchradd ar gyfer ymgynghori ac mae slotiau misol ar gael i ysgolion cynradd a darpariaethau amgen. Rhwng mis Medi 2022 a mis Gorffennaf 2023, cwblhaodd BIPAB 3,116 o ymgynghoriadau ym mhob ysgol. Cynigiwyd 2,033 o sesiynau grŵp i bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd. Cafodd 1,418 o staff hyfforddiant ar-lein a chafodd 92 o ysgolion hyfforddiant wyneb yn wyneb.

BIPBC – Ar y cyd â Chyfarwyddwr Addysg Sir Ddinbych a Phrif Swyddog Addysg Conwy, darparwyd cymorth ariannol i hyrwyddo Arweinyddiaeth Dosturiol yng nghynadledau penaethiaid y ddwy sir ym mis Mehefin 2023 a'r broses o gyflwyno rhaglen FRIENDS Resilience yn y ddwy sir. Mae tîm y Dwyrain yn darparu cymorth i ddatblygu gwasanaeth Mewngymorth meddygon teulu yn Wrecsam/Sir y Fflint, gyda'r nod o'i ddatblygu gydag Ymarferwyr Llesiant Teulu meddygon teulu. Mae Rheolwr y Gwasanaeth Clinigol a'r Uwch-ymarferwyr Iechyd meddwl Addysg wedi cwrdd â holl Swyddogion Addysg yr ALI i hyrwyddo'r gwasanaeth.

BIPCTM - Mae SHINE (Mewngymorth CAMHS) wedi gweithio'n agos gydag arweinwyr gweithredu'r Dull Ysgol Gyfan i roi rhaglen beilot ar waith. Mae SHINE wedi cwblhau'r cam cyntaf mewn mwy na 50 o ysgolion. Mae tîm Shine wedi trefnu gweithdai cyd-gynhyrchu amlasiantaethol rheolaidd ym mhob ardal leol. Mae fforymau amlasiantaethol bellach ar waith yn yr ardaloedd gyda lefelau ymgysylltu da. Mae'r gwasanaeth Mewngymorth wedi darparu mewnbwn sylweddol i tua 80-85 y cant o'r ysgolion yng Nghwm Taf Morgannwg.

BIPHDD – Mae'r grŵp llywio amlasiantaethol wedi'i sefydlu'n dda ers 2021, cynhelir cyfarfodydd chwarterol ac mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o bob grŵp rhanddeiliaid gan gynnwys partneriaid ALI, SACDA ADY, arweinwyr gweithredu'r Dull Ysgol Gyfan a staff ysgolion. Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn parhau i ymgysylltu â'r grwpiau blaenoriaeth/partneriaid perthnasol gan gynnwys Cydlynwyr ADY, Fforymau Penaethiaid a'r Grŵp Iechyd a Llesiant Emosiynol. Mae Arweinwyr Tîm yn parhau i fynychu cyfarfodydd TAPPAS (y tîm o amgylch y disgybl, y rhiant a'r lleoliad) ar gyfer pob ysgol uwchradd er mwyn cynnig cyngor a chymorth. Mae cysylltiadau da wedi'u meithrin â Mind ac Adferiad ar eu prosiectau Noddfa Plant a Phobl Ifanc.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ddatblygu ac mae wedi gweld newidiadau mewn staff a heriau oherwydd absenoldeb staff, a all fod wedi effeithio ar gydberthnasau ag ysgolion, ond rhoddwyd blaenoriaeth i waith ymgynghori ac nid effeithiwyd ar yr ymateb i atgyfeiriadau na pherfformiad o ran amserlenni.

Mae'r staff yn cysylltu ag ysgolion ddwywaith o leiaf mewn hanner tymor ysgol ac mae wedi meithrin cydberthnasau ag ysgolion penodedig a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnig hyfforddiant staff, dysgu dysgwyr ac ymgynghoriad. Mae gan y Gwasanaeth rif ffôn a chyfeiriad e-bost canolog, felly gall ysgolion gysylltu ag aelod o'r tîm yn ystod oriau swyddfa, a cheir hefyd gyfrif Twitter/X i rannu gwybodaeth berthnasol am iechyd a llesiant emosiynol mewn ysgolion. Caiff calendr llesiant blynyddol Powys ei ddatblygu a'i rannu ag ysgolion.

BIPBA – Cymryd rhan yn y Fforwm Iechyd a Llesiant Emosiynol misol, sef cyfarfod sy'n galluogi nifer o asiantaethau o gymunedau ysgolion i gasglu a rhannu statws presennol eu gwasanaethau. Er mwyn meithrin cydberthnasau, gwahoddod y Bwrdd Iechyd Lleol bennaeth ac arweinydd cwnsela mewn ysgolion i fod yn rhan o'r panel cyfweld ar gyfer arweinydd tîm Mewngymorth.

Mynychu cyfarfodydd â phenaethiaid ysgolion cynradd ac ymgysylltu ag arweinwyr llesiant mewn Ysgolion Uwchradd yn rheolaidd. Teilwra rhaglenni hyfforddiant i ddiwallu anghenion penodol yr ysgol a chyfrannu'n weithredol at raglen hyfforddi'r AALI. Cymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau fel Dydd Mercher Llesiant a gweithdai i rieni er mwyn annog sgysiau am iechyd meddwl. Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, dosbarthu cylchlythyrau tymhorol ac anfon holiaduron blynyddol at ysgolion.

BIPCF – Mae'r arweinydd clinigol Mewngymorth wedi parhau i ymgysylltu â phartneriaid rhanbarthol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, sefydlwyd cyfarfod misol â Gwasanaethau Addysg Caerdydd er mwyn datblygu'r cynnig llesiant emosiynol craidd ar y cyd ar gyfer ysgolion ac archwilio cyfleoedd ar gyfer datblygu partneriaeth bellach. Mae'r arweinydd clinigol wedi ymuno â Chyfarfod Arweinwyr Llesiant y Fro yn ddiweddar.

Gweithio gyda phartneriaid ALI ac addysg i ddatblygu ffyrdd o feddwl am bynciau sy'n berthnasol i ysgolion fel Hunan-niweidio ac Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiynol/Osgoi'r Ysgol ar Sail Gorbryder. Dechreuwyd cynnal sgysiau ag arweinwyr o ysgolion cynradd (drwy gymryd rhan mewn Fforwm Penaethiaid a thrwy anfon negeseuon e-bost at ysgolion yn gwahodd cynrychiolwyr i gymryd rhan mewn grŵp ffocws) a bwriedir iddynt barhau er mwyn deall anghenion a chymorth. Anfonir cylchlythyr tymhorol at fwy na 500 o ymatebwyr. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am waith, newyddion, a manylion datblygiadau mewn gwasanaethau a hyfforddiant sydd ar ddod.

4. Y Defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi llesiant

Mae'n ofynnol i Gonsortia Addysg Rhanbarthol / Awdurdodau Lleol gyflwyno Cynllun Cymorth i Lywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion yn unol ag wyth maes allweddol *Safonau a*

Dyheadau Uchel i Bawb, y mae un ohonynt yn cynnwys lechyd a Llesiant Plant a Phobl Ifanc. Tynnodd dadansoddiad o'r cymorth a ddarparwyd gan ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar Lesiant yn 2022/23 sylw at gyfraniad allweddol y cyllid hwn at gefnogi ein hagenda lesiant. Gall enghreifftiau o gymorth gynnwys:

Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg

- Cafodd pob ysgol grant penodol gan y GCA i ariannu aelod allweddol o'r staff i fod yn Arweinydd Llesiant ar gyfer yr ysgol honno.
- Caiff y Dull Ysgol Gyfan ei hyrwyddo ym mhob digwyddiad dysgu proffesiynol.
- Mae dogfen benodol ar gyfer pob ALI wrthi'n cael ei datblygu i'w rhannu â phob un o'i ysgolion yn mapio'r hyn a gynigir yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn helpu pob ysgol i roi'r Dull Ysgol Gyfan ar waith.

Consortiwm Canolbarth y De

- Cwrdd bob mis ag Arweinwyr Gweithredu lechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am y rhanbarth i drafod blaenoriaethau allweddol a meysydd ffocws a chefnogi pob digwyddiad ymgysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion sy'n cwmpasu'r tri awdurdod lleol.
- Gweithio gydag Arweinwyr Gweithredu lechyd Cyhoeddus Cymru i nodi cyfleoedd Dysgu Proffesiynol a fyddai'n cefnogi'r Dull Ysgol Gyfan a gwaith ehangach ar degwch a llesiant ledled y rhanbarth.

Partneriaeth

- Gweithio gyda'r Timau Cynghorwyr Gwella Ysgolion ym mhob ALI i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r Dull Ysgol Gyfan a'r cyswllt â'r Grant Datblygu Disgyblion er mwyn sicrhau bod proses cynllunio strategol yr ysgol yn gadarn ac yn gyson â'r holl ddisgwyliadau.

ALI Castell-nedd Port Talbot

- Mae Swyddogion Cymorth Addysg wedi ymgysylltu a'r holl arweinwyr ysgolion i feithrin dealltwriaeth o'r Dull Ysgol Gyfan.
- Mae pob ysgol wedi cymryd rhan mewn dwy sesiwn hyfforddiant ar Becyn Cymorth Hunanasesu'r Dull Ysgol Gyfan gydag lechyd Cyhoeddus Cymru.
- Mae llawer o ysgolion yn parhau i ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi ymyriadau llesiant, e.e. ELSA, chwarae sy'n seiliedig ar gydberthnasau, cwnsela yn yr ysgol. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn parhau i ddarparu dysgu proffesiynol a chymorth i ysgolion sy'n cydnabod yr angen i gefnogi ieuchyd a llesiant emosiynol disgyblion.

ALI Ceredigion

- Mae'r mwyafrif o'r ysgolion yn yr awdurdod lleol yn nodi eu bod yn gwario eu Grant Datblygu Disgyblion ar ieuchyd a llesiant ac mae'r mwyafrif o'r ysgolion yn nodi mai ar ieuchyd a llesiant y gwnaethant wario'r mwyafrif o'u Grant Datblygu Disgyblion.

ALI Powys

- Caiff y broses o rannu arferion sy'n dod i'r amlwg ei chefnogi gan y defnydd o gyllid i sicrhau dull cydlynus. Mae canllawiau clir yn cael eu datblygu i gefnogi llesiant pob dysgwr. Mae gwaith partneriaeth wedi'i ddatblygu'n dda ond

mae'n cael ei atgyfnerthu ymhellach gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys y Tîm Ysgolion Iach, sy'n cefnogi nifer o leoliadau ac ysgolion.

5. Dysgu a datblygiad proffesiynol

Y peth pwysicaf y gallwn ei wneud i roi'r Dull Ysgol Gyfan ar waith yw uwchsgilio ein gweithlu ysgolion. Rydym wrthi'n comisiynu ymateb dysgu proffesiynol a phhecyn cymorth a fydd yn cefnogi staff addysgu, eu datblygiad a'u dysgu parhaus mewn perthynas â'r Dull Ysgol Gyfan. Yn gysylltiedig â hyn bydd hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i ddysgu am ddatblygiad plant a niwroamrywiaeth, gan gydnabod y rhyngddibyniaethau. Mae hwn yn newid sylweddol i'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol a bydd yn cymryd amser i'w datblygu ond mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud cynnydd cyflym yn y maes hwn oherwydd ei bwysigrwydd i ategu ein hymrwymiad i lesiant.

Effaith y Dull Ysgol Gyfan

Nid yw mesur effaith ein gwaith yn y maes hwn yn syml gan fod llawer o ryngddibyniaethau yn effeithio ar lesiant plant a phobl ifanc ac mae'r rhain yn digwydd o fewn amgylchedd yr ysgol a thu hwnt. Nid oes ateb cyflym ac mae'n cymryd amser i newid diwylliannau. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o weithgareddau ar waith i fesur a gwerthuso ein gwaith ar lefel strategol, leol ac ysgol. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o'r gwaith a amlinellir yn yr adroddiad hwn, fel monitro cynnydd y broses o roi'r Dull Ysgol Gyfan ar waith fel mater o drefn, gweithgarwch gwerthuso a arweinir gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru a gwerthusiad annibynnol gan Ganolfan Wolfson.

Yn 2022, gwnaethom gyhoeddi'r asesiad o werthusadwyedd³ ar gyfer y Dull Ysgol Gyfan er mwyn helpu i'w roi ar waith a'i werthuso. Roedd yr adroddiad hwn yn awgrymu y dylid adolygu'r model rhesymeg wrth i'r rhaglen waith fynd rhagddi. I'r perwyl hwn, aeth lechyd Cyhoeddus Cymru ati i gynnull rhanddeiliaid perthnasol ym mis Tachwedd 2023, i ystyried sefydlu'r naratif gwerthuso cyffredinol ar gyfer y Dull Ysgol Gyfan gan ddilyn dull model rhesymeg. Arweiniodd hyn at bennu'r nodau canlynol ar gyfer y dyfodol:

1. Cyfathrebu rhwng pob ymchwilydd/gwerthuswr bob chwarter.
2. Egluro'r cwestiynau ymchwil a gaiff eu hateb ar gyfer y rhaglen lawn a nodi unrhyw fylchau mewn gweithgarwch gwerthuso y bydd angen mynd i'r afael â nhw.
3. Creu naratif cyffredinol gan ddwyn ynghyd pob un o'r llinynnau gwerthuso a model rhesymeg wedi'i ddiweddarau.
4. Integreiddio'r cynnydd dros y flwyddyn nesaf yn rhaglen waith newydd Ysgolion Hybu lechyd.

³ [Dull Gweithredu Ysgol Gyfan mewn perthynas â lechyd Meddwl a Lles Emosiynol: asesiad o werthusadwyedd | LLYW.CYMRU](#)

Bydd eitem 3 uchod yn rhoi trosolwg o'r holl weithgareddau ymchwil a gwerthuso. Bydd y cynllun hefyd yn anelu at amlinellu sut y gellir monitro'r broses o roi'r Dull Ysgol Gyfan ar waith a'i effaith yn yr hirdymor fel rhan o raglen waith ysgolion Hybu Iechyd.

Yn ogystal â hyn, mae llawer o waith eisoes yn mynd rhagddo y gellir adeiladu arno ac sy'n rhoi cipolwg inni ar lesiant ein plant a'n pobl ifanc a meincnod ar ei gyfer.

Ym mis Ebrill, cyhoeddodd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion adroddiad ar Arolwg Iechyd a Lles Myfyrrwyr 2021/22⁴. Cwblhawyd yr arolwg ar-lein yn yr ystafell ddosbarth gan 123,204 o fyfyrwyr o flynyddoedd 7 i 11 mewn 202 o ysgolion (196 o ysgolion a gynhelir a chwe ysgol annibynnol), a dangosodd yr adroddiad y canlynol:

- Symptomau iechyd meddwl 'ychydig yn uwch' ymysg bron hanner y dysgwyr (46 y cant) a symptomau 'uchel iawn' ymysg bron chwarter (24 y cant) gan ddefnyddio'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau. Cynnydd o 39 y cant a 19 y cant, yn y drefn honno, yn 2019.
- Roedd y ganran â symptomau iechyd meddwl uwch (h.y. o leiaf 'ychydig yn uwch') yn codi gydag oedran. Fodd bynnag, rhwng 2019 a 2021, cododd y ganran yn anghymesur yn y grwpiau oedran iau (blynyddoedd 7 ac 8) o gymharu â'r grwpiau oedran hŷn (blynyddoedd 9-11).
- Roedd symptomau uwch yn fwy cyffredin ymysg merched na bechgyn, gyda'r bwlch hwn yn ehangu gydag oedran. Rhwng 2019 a 2021, cododd y ganran â symptomau uwch hefyd ymysg merched (o 44 y cant i 53 y cant) o gymharu â bechgyn (o 34 y cant i 36 y cant).
- Roedd symptomau uwch yn fwy cyffredin ymysg dysgwyr o'r teuluoedd lleiaf cyfoethog, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y bwlch hwn wedi ehangu rhwng 2019 a 2021.
- Ar y cyfan, roedd 62 y cant o'r dysgwyr yn cytuno bod cymorth iechyd meddwl ar gael yn eu hysgol, i lawr o 67 y cant yn 2019. Roedd merched yn llai tebygol o gytuno bod cymorth ar gael o gymharu â bechgyn (59 y cant o gymharu â 66 y cant), gan ddangos mwy o ostyngiad ers 2019. Roedd y rheini mewn grwpiau oedran hŷn hefyd yn llai tebygol o gytuno bod cymorth ar gael.

Er bod yr arolwg yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn iach ac yn hapus â'u bywydau, dangosodd fod gostyngiad mewn canlyniadau cadarnhaol ar sawl dangosydd iechyd meddwl a llesiant, yn ogystal â bywyd ysgol, teulu a chymdeithasol, o gymharu â data a gasglwyd yn 2019, cyn pandemig COVID-19. Ar sawl un o'r dangosyddion hyn, roedd y gostyngiad mewn canlyniadau cadarnhaol yn fwy amlwg ymysg merched na bechgyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ehangu Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion a'r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrrwyr i ysgolion cynradd ac mae wedi bod yn ariannu gwaith treialu i archwilio sut y gellir cyflawni hyn yn effeithiol. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr arolwg cyntaf i ysgolion cynradd a gynhaliwyd ar draws

⁴ [Data Cenedlaethol - Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion \(shrn.org.uk/cy/\)](https://shrn.org.uk/cy/)

blynyddoedd ysgol 3-6 (h.y. disgyblion 7-11 oed) ym mis Hydref⁵. Casglwyd data hunangofnodedig ar-lein gan fyfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r cyfartaleddau cenedlaethol yn seiliedig ar 32,606 o ymatebion gan 354 o ysgolion cynradd yng Nghymru, a gasglwyd rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023. Cymerodd ysgolion mewn 21 allan o'r 22 o awdurdodau lleol ran. Roedd fersiwn derfynol yr arolwg yn cynnwys 19 o gwestiynau ar gyfer blynyddoedd 3 a 4, 28 o gwestiynau ar gyfer blwyddyn 5, a 33 o gwestiynau ar gyfer blwyddyn 6.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno canlyniadau cyffredinol, ynghyd â chanlyniadau yn ôl blwyddyn ysgol, rhywedd a chyfoeth teuluol (dim ond i ddysgwyr ym mlynyddoedd ysgol 5 a 6 y gofynnwyd iddynt), ynghyd â chrynodeb naratif byr. Dyma ddetholiad byr o'r canfyddiadau mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant:

- Mae *Holiadur Fi a Fy Nheimpladau* yn adnodd wedi'i ddilysu sy'n cynnwys 16 o gwestiynau, gan asesu anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Ar y cyfan, nododd mwy na chwarter y dysgwyr (27 y cant) anawsterau emosiynol uwch, gyda 13 y cant yn nodi anawsterau emosiynol clinigol arwyddocaol posibl. Nododd tua 14 y cant o'r dysgwyr anawsterau ymddygiadol uwch, gydag 8 y cant yn nodi anawsterau ymddygiadol clinigol arwyddocaol posibl.
- Ar gyfartaledd, roedd merched yn fwy tebygol o nodi anawsterau emosiynol o gymharu â bechgyn, ac roedd bechgyn yn fwy tebygol o nodi anawsterau ymddygiadol o gymharu â bechgyn. Fodd bynnag, dysgwyr a nododd nad oedd yr un gair yn eu disgrifio oedd fwyaf tebygol o nodi anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.
- Roedd dysgwyr o deuluoedd llai cyfoethog yn fwy tebygol o nodi anawsterau emosiynol ac ymddygiadol o gymharu â'r rheini o deuluoedd mwy cyfoethog. Roedd y patrwm yn ôl oedran yn llai clir.

Dangosodd yr arolwg fod y rhan fwyaf o blant 7-11 oed yn iach ac yn hapus â'u bywydau. Fodd bynnag, nododd lleiafrif sylweddol anawsterau emosiynol a/neu ymddygiadol; profiad o fwlio; ymgysylltiad llai cadarnhaol â'r ysgol, staff a/neu ddysgwyr eraill; a phryderon ynghylch pontio i'r ysgol uwchradd.

Bydd mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn yn yr ysgol yn ffocws allweddol i wasanaethau cymorth cwnsela mewn ysgolion. Mae cwnsela yn agwedd bwysig ar y cymorth a ddarparwn fel rhan o'r Dull Ysgol Gyfan. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig darpariaeth resymol o wasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed ar safle pob ysgol uwchradd a gynhelir ganddynt ac ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 6 yr ysgol gynradd. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym hefyd wedi gofyn i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau cwnsela ehangu'r cymorth islaw'r trothwy blwyddyn 6 presennol i blant iau. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data blynyddol gan awdurdodau lleol ar y gwasanaethau cwnsela a ddarperir ac yn cyhoeddi'r data hyn. Cyhoeddwyd yr adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Mawrth 2023 ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 (caiff yr adroddiad ar flwyddyn academaidd 22/23 ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2024). Dangosodd y canlynol:

⁵ [Data Cenedlaethol - Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion \(shrn.org.uk/cy/\)](https://shrn.org.uk/cy/)

- Bod 12,522 o blant neu bobl ifanc wedi cael gwasanaethau cwnsela yn 2021/22, sef cynnydd o gymharu â'r 10,601 a gafodd gymorth yn y flwyddyn flaenorol.
- Staff mewn ysgolion a staff addysg eraill oedd y math mwyaf cyffredin o atgyfeiriad, gan gyfrif am fwy na hanner yr holl atgyfeiriadau (56 y cant).
- Roedd tua dwy ran o dair o'r plant a'r bobl ifanc a gafodd wasanaethau cwnsela yn 2021/21 yn ferched, ac roedd un rhan o dair ohonynt yn fechgyn.
- Roedd 20 y cant o'r holl blant a phobl ifanc a gafodd wasanaethau cwnsela ym Mlwyddyn 10.
- Gorbryder a phroblemau teuluol oedd y math mwyaf cyffredin o broblem ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd wasanaethau cwnsela.
- Nid oedd angen i 87 y cant o'r plant a'r bobl ifanc gael atgyfeiriad pellach ar ôl cwblhau'r sesiynau cwnsela.

Defnyddir YP Core (mesur deg eitem yw Young Person's CORE sydd wedi'i ddylunio i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc 11-18 oed) i fesur gofid seicolegol a adroddir gan bobl ifanc, cyn ac ar ôl cael gwasanaethau cwnsela. Roedd y gwelliant cyfartalog yn sgôr YP Core ymysg plant a phobl ifanc a gafodd wasanaethau cwnsela yn 2021/22 yn amrywio o 3.8 yng Ngheredigion i 11.8 yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Rydym hefyd wrthi'n ystyried gwerthusiad ffurfiol o effaith gwasanaethau cwnsela, gan gynnwys datblygu papur sy'n crynhoi tystiolaeth allweddol o effeithiolrwydd ac effaith gwasanaethau cwnsela statudol mewn ysgolion ac yn y gymuned ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd y papur hwn yn dwyn ynghyd ymchwil a gomisiynwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys ffocws ar werthuso effaith gwasanaethau cwnsela ar blant a phobl ifanc, ynghyd â dadansoddiad ystadegol sy'n monitro gwybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol am eu gwasanaethau cwnsela.

Hefyd, mae ALLau yn darparu amrywiaeth o wybodaeth reoli i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r cyllid grant uniongyrchol ar gyfer cymorth cwnsela (£2.1m yn 2023-24) y maent yn ei gael fel rhan o'r Dull Ysgol Gyfan. Dangosodd y wybodaeth reoli hon fod 111,800 o sesiynau wedi'u darparu ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Mewn 12 o'r ALLau, mae cyfanswm o 3,092 o sesiynau wedi'u darparu i staff.

Hefyd, darparodd pob un o'r 22 o ALLau gyfanswm y cwnselwyr (CALI) a oedd mewn swydd ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2022-23. Roedd cyfanswm o 159.14 o gwrselwyr (CALI) mewn swydd. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu ers yr adroddiad ar adolygiad 2019, pan oedd 110.7 o gwrselwyr mewn swydd.

Mae nifer y disgyblion ar restrau aros ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2022-23 wedi gostwng 17% ers 2019.

Ym mis Gorffennaf 2023, yr amseroedd aros cyfartalog ar gyfer disgyblion ysgol gynradd oedd pedair wythnos neu lai yn naw o'r ALLau ac roeddent yn fwy na phedair wythnos mewn 11 o ALLau, ac nid oedd gan ddau ALI restrau aros. Ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd, roedd yr amseroedd aros cyfartalog ar gyfer cwnsela yn bedair wythnos neu lai mewn 11 o ALLau ac yn fwy na phedair wythnos mewn 11 o ALLau.

Yr amser aros hiraf oedd 60 wythnos a'r byrraf oedd wythnos. Nododd 13 o ALLau leihad yn yr amseroedd aros hiraf ac nododd 5 gynnydd o gymharu ag adolygiad 2019.

Rydym hefyd yn darparu cyllid i gefnogi'r broses o ddarparu ymyriadau llesiant cyffredinol ac wedi'u targedu mewn ysgolion; hyfforddi athrawon ac aelodau eraill o staff ysgolion ar lesiant; a darparu cymorth ymroddedig i UC Dau a phlant mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol, gan gydnabod ei bod yn debygol bod gan y garfan hon fwy o anghenion llesiant. Yn ystod y flwyddyn bresennol, rydym wedi darparu £1.1m ar gyfer ymyriadau a hyfforddiant a £350,000 ar gyfer cymorth UC/ Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

Mae'r wybodaeth reoli a ddarparwyd gan ALLau ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 yn dangos bod amrywiaeth eang o hyfforddiant ac ymyriadau (gan gynnwys mewn UC Dau, ysgolion ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol, ysgolion sy'n Seiliedig ar Adnoddau Arbenigol a darpariaethau eraill ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol wedi cael eu defnyddio yn yr ALLau. Ymysg y rhaglenni mwyaf amlwg a ariannwyd gan ALLau gan ddefnyddio arian grant Llywodraeth Cymru mae:

- Cynorthwyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol
- Rhaglen Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiynol
- Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma
- Ardal neu weithgareddau awyr agored (gan gynnwys gardd, rhandiroedd, ysgolion coedwig)
- Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl neu Seicolegol
- Chwarae Datblygiadol/Therapi Chwarae
- Therapi ar sail Lego/Clwb Lego
- Tymhorau Twf (rhaglenni addysg galar)
- Gweithgarwch corfforol/chwaraeon

Yn 2022/2023, aeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ati i ddwyn ynghyd yr hyn a ddysgwyd o amrywiaeth o ddata i ddisgrifio camau cynnar rhoi'r Dull Ysgol Gyfan ar waith. Mae'r hyn a ddysgwyd hyd yma yn cynnwys y canlynol:

- Mae ysgolion a rhanddeiliaid proffesiynol yn rhoi gwerth uchel i'r Dull Ysgol Gyfan.
- Mae'r adborth gan Gydlynwyr Gweithredu yn awgrymu bod y broses o gyflwyno'r rhaglen wedi cyfrannu at waith i atgyfnerthu partneriaethau lleol ar draws sectorau.
- Mae ysgolion wedi cydnabod y buddiannau posibl y mae'r dull yn ei gyflwyno o ran hybu iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol i ddysgwyr a staff.
- Roedd ysgolion yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan eu Cydlynwyr Gweithredu yn ystod y broses o hunanwerthuso a chynllunio camau gweithredu.
- Nododd ysgolion fod galwadau croes ar gyfer eu blaenoriaethau gwahanol yn heriol.

Yn 2023/2024, cyhoeddwyd adroddiad⁶ dysgu yn archwilio sut a pham y mae ysgolion wedi ymgysylltu â'r broses hunanwerthuso; gan ymchwilio i'r ffordd y defnyddiwyd y canllawiau a'r adnoddau ac i ba raddau yr oedd y gymuned ysgol gyfan wedi'i chynnwys. Y pethau y mae'n ymddangos eu bod yn gwneud gwahaniaeth i'r gallu i ymgorffori proses hunanwerthuso yn llwyddiannus yw:

- Meithrin diwylliant sy'n gwerthfawrogi'r broses o nodi neu lle y gellir cymryd camau ategol i sicrhau'r effaith fwyaf a lleihau baich.
- Cael arweinyddiaeth gref sy'n rhoi dull hunanwerthuso strwythuredig ar waith sy'n cyd-fynd â chynlluniau datblygu a gwella ysgolion.
- Datblygu gweithgarwch ymgysylltu i ysgolion sy'n diwallu anghenion grwpiau gwahanol yng nghymuned yr ysgol.
- Ystyried yr holl safbwyntiau wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella.
- Pan gaiff blaenoriaethau eu nodi, gweithio drwy'r maes perthnasol cyfan fel cymuned ysgol cyn cytuno ar weithgarwch ymyrryd neu geisio cymorth allanol.
- Datblygu gwelliant parhaus drwy gyfnewid gwersi a ddysgwyd a phrofiadau ag ysgolion eraill i feithrin dealltwriaeth a rennir o ddulliau hunanwerthuso.

Cyhoeddir yr adroddiad dysgu diweddaraf yn 2023/2024 ac mae wedi archwilio'r modd y mae ysgolion wedi cynllunio camau gweithredu i amddiffyn a hybu llesiant meddyliol ac wedi eu rhoi ar waith. Mae'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn dangos sut mae ysgolion wedi goresgyn heriau i lywio eu ffordd drwy doreth o ymyriadau a mentrau i ddewis yr hyn sydd orau iddynt. Hefyd, caiff y rolau, y cyfrifoldebau a'r adnoddau amrywiol sy'n cyfrannu at y gwaith o ddethol camau gweithredu, eu rhoi ar waith a'u deall, eu harchwilio, ynghyd â dylanwad diwylliant yr ysgol.

Bydd y gwerthusiad yn parhau yn 2024/25 a bydd ei gam nesaf yn canolbwyntio ar archwilio'r Dull Ysgol Gyfan fel rhan o'r system ehangach ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, gan ddisgrifio rôl partneriaethau amlasiantaethol, gan gynnwys gwasanaeth Mewngymorth CAMHS.

Wrth fesur effaith yn y dyfodol, mae sawl maes gweithgarwch yn mynd rhagddo neu wedi'i gynllunio y gallwn fanteisio arno, gan gynnwys:

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal gwerthusiad dulliau cymysg sy'n canolbwyntio ar y broses o roi'r Dull Ysgol Gyfan ar waith dros sawl cam, gan gynnwys hunanasesu anghenion a chryfderau; llunio cynllun gweithredu; a rhoi proses o weithio ym mhob rhan o'r system ar waith. Mae'r gwaith hwn yn defnyddio adborth gan ysgolion amrywiol ledled Cymru sydd eisoes wedi bod yn ymgysylltu â chydlynwyr gweithredu a'r gweithlu sy'n cefnogi'r ysgolion hyn. Mae'n datgelu'r hyn sy'n gweithio i bwy ac mewn pa amgylchiadau, er mwyn llywio'r broses barhaus o wella gweithgarwch ar lefel ysgol a gwneud unrhyw addasiadau sy'n angenrheidiol i gefnogi adnoddau.
- Mae Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Plant yn cynnal gwerthusiad o'r Dull Ysgol Gyfan. Nod y gwerthusiad hwn yw archwilio cyfraniad y framwaith statudol at wella iechyd meddwl a llesiant emosiynol pobl ifanc yng

⁶ <https://phw.nhs.wales/topics/promoting-individual-and-community-wellbeing/whole-school-approach-to-emotional-and-mental-wellbeing-learning-report-welsh/>

Nghymru, ac ystyried y broses o adfer ar ôl pandemig COVID-19. Bydd y gwerthusiad hefyd yn nodi i ba raddau y mae'r fframwaith wedi cyfrannu at newidiadau i'r system o arferion iechyd meddwl a llesiant o fewn ac o gwmpas ysgolion. Bydd y gwerthusiad yn mynd rhagddo hyd at 2025 ac mae'n cynnwys amrywiaeth o ddulliau ymchwilio i brosesau casglu data ar draws tair ffrwd waith:

- Cyd-destun ymarfer presennol cyn y fframwaith ac ar ei ôl,
- Y broses weithredu dros amser mewn ysgolion unigol,
- Data ar iechyd meddwl a llesiant dysgwyr dros amser.

Mae'r gwerthusiad wedi cwblhau'r cam cyntaf ac mae data o bob pecyn gwaith yn cael eu hadolygu er mwyn ystyried cyfraniad y fframwaith. Mae dau bapur ymchwil yn cael eu llunio:

1. Papur yn archwilio data meintiol ar lesiant dysgwyr hyd at 2021 i ddarparu llinell sylfaen ar gyfer cyd-destun cyflwyno'r Fframwaith.
2. Papur yn archwilio ymatebion cychwynnol y system i'r Fframwaith, gan amlinellu lle y gwelir a lle nas gwelir newidiadau cynnar a pham.

Casgliad

Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor a'i fod yn ategu ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Mae llesiant yn rhan ganolog o 'Genhadaeth ein Cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb'⁷. Mae'n ategu pob agwedd ar ddysgu a thrwy fynd i'r afael ag effaith llesiant gwael, meithrin cydnerthedd a chefnogi ein plant a'n pobl ifanc pan fo angen, gallwn gael effaith ehangach o lawer gan gynnwys ar ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad.

O ran ymddygiad, mae angen i bolisi gael ei fframio yn nhermau cefnogi'r unigolyn ac ystyried problemau ymddygiadol fel un o symptomau problemau llesiant sylfaenol. Y consensws cyffredinol yw bod achosion o ymddygiad heriol (ac ymosodol weithiau) wedi cynyddu ers y pandemig. Mae gan fwy o bobl ifanc broblemau iechyd meddwl neu lesiant ac ni allant hunanreoli. Felly, mae'n bwysig bod dulliau cefnogol o wella ymddygiad disgyblion yn cael eu hystyried yn hanfodol i wella llesiant a dysgu dysgwyr a staff yn ein hysgolion. Maent yn elfennau allweddol o'r diwygiadau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau addysgol a oedd eisoes ar waith yng Nghymru cyn y pandemig.

Mae llesiant hefyd yn rhan ganolog o'n canllawiau newydd ar bresenoldeb – Perthyn, Ymgysylltu a Chyfranogi, sy'n nodi dulliau i helpu ymarferwyr a phartneriaid i wella ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr. Maent yn cydnabod yr achosion sy'n gorgyffwrdd sy'n sail i absenoldeb dysgwyr a/neu eu hymddieithriad o addysg, gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant. Dyna pam y bydd angen i'r Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol amlasiantaethol, a gyhoeddwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Hydref, ynghyd â'r canllawiau cyhoeddedig, sicrhau bod llesiant yn rhan

⁷ [Cenhadaeth ein Cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

ganolog o'i waith wrth iddo geisio darparu cyfeiriad strategol, pennu blaenoriaethau a nodi camau gweithredu pendant er mwyn sicrhau gwelliannau i gyfraddau presenoldeb ac ailennyn diddordeb dysgwyr.

Yn 2023, gwnaethom hefyd ddarparu cyllid ar gyfer prosiect peilot Hyrwyddwyr Cyrhaeddiad a ddarparwyd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Nod y peilot oedd archwilio ffyrdd o leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad dysgwyr drwy fanteisio ar y wybodaeth a'r profiad sy'n bodoli yn ein hysgolion ac ymysg ein harweinwyr ysgolion sydd wedi cyflawni llwyddiant parhaus yn y maes hwn i gefnogi arweinwyr eraill sydd ar gam cynharach o'r daith. Dangosodd y gwerthusiad o'r prosiect fod dysgu proffesiynol cydweithredol wedi cael effaith sylweddol ar arweinyddiaeth, darpariaeth ac ymarfer ac, yn bwysig, bod llesiant staff a phlant yn cael ei gefnogi'n well drwy'r dull hwn.

Wrth gloi, mae hefyd yn werth nodi, er bod yr ysgol yn bwysig, mai dim ond un rhan ydyw o system ehangach o lawer y mae angen iddi weithredu'n effeithiol er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc y mae angen cymorth arnynt yn gallu cael y cymorth hwnnw mewn modd priodol ac amserol. Mae hefyd yn werth nodi bod ysgolion yn fannau prysur lle rhoddir blaenoriaeth i addysg. Nid canolfannau 'trin iechyd meddwl' ydynt ac ni ddylid rhoi'r baich hwnnw arnynt felly, ond yn hytrach maent yn un o'r manau gwerthfawr hynny ym mywyd plentyn sy'n darparu amgylchedd llesiant ac sy'n lle i feithrin cydberthnasau da, llawn ymddiriedaeth.

Mewn perthynas â hyn, mae fframwaith NYTH/NEST⁸ yn ategu'r Fframwaith gyda'r nod o ymgorffori dull system gyfan ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant i fabanod, plant a phobl ifanc. Nod ein proses o lywodraethu NYTH/NEST yw meithrin egwyddorion system gysylltiedig. Rydym yn datblygu proses o adrodd yn flynyddol ar NYTH/NEST a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o weithredu NYTH/NEST yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

Mae adnodd Hunanasesu a Gweithredu NYTH/NEST wedi'i lunio ar y cyd a chaiff ei dreialu gan ddeg sefydliad a'i gwblhau'n derfynol ar ôl cael adborth ganddynt. Cynhelir y digwyddiad lansio ym mis Chwefror. Hefyd, mae hyfforddiant ar NYTH/NEST a hawliau plant wedi'i lunio ar y cyd â swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, BIPAB a phobl ifanc. Mae'n cael ei dreialu ar hyn o bryd a chaiff ei gwblhau'n derfynol ar ôl cael adborth. Bydd ar gael i bob sector ar wefan Y Tŷ Dysgu AaGIC.

Chwefror 2024

⁸ [Fframwaith NYTH \(iechyd meddwl a lles\): cyflwyniad | LLYW.CYMRU](#)

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad,
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
CF99 1SN

12 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch unwaith eto i'r Pwyllgor am yr amser y mae wedi'i dreulio'n ystyried manylion y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru).

Ysgrifennaf mewn ymateb i gais Adam Price AS i mi ddarparu enghreifftiau o ddarpariaethau deddfwriaethol sy'n gorfodi cynnwys rhai elfennau mewn canllawiau. Rwyf wedi cynnwys yn yr Atodiad i'r llythyr hwn ddetholiad o enghreifftiau diweddar sy'n ymdrin â'r pwynt hwn, o Ddeddfau Senedd Cymru a Deddfau Senedd y DU.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,



Sam Rowlands AS
Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru

Atodiad

Deddf	Adran	Nodyn esboniadol
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023	196(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrff a restrir yn is-adran (2)— (a) ar sut y gall y cyrff gyfrannu tuag at lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol a chynorthwyo i gynnal y cofnodion, a (b) ar y defnydd o gofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer swyddogaethau'r cyrff.	Mae adran 196 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru ar sut y gallant gyfrannu at y gwaith o lunio a chynnal a chadw'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ac ar y defnydd o'r cofnodion amgylchedd hanesyddol wrth gyflawni eu swyddogaethau.
Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023	2(3) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi canllawiau ynghylch— (a) y cynhyrchion plastig untro sydd wedi eu gwahardd o dan y Ddeddf hon; (b) cymhwyso unrhyw esemptiadau a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen.	Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi canllawiau ynghylch y cynhyrchion plastig untro sy'n cael eu gwahardd o dan y Ddeddf, a sut y dylid cymhwyso unrhyw eithriadau sy'n cael eu rhestru o dan golofn 2 yn y Tabl.
Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023	9(5) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch cyfansoddiad yr is-grŵp caffael cyhoeddus (gan gynnwys at ddiben sicrhau aelodaeth sydd â chynrychiolaeth briodol), a rhaid i'r CPG roi sylw i'r canllawiau hynny.	Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r CPG gymryd pob cam rhesymol i sefydlu is-grŵp penodol sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus o fewn chwe mis i adran 9(1) ddod i rym. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru bennu a chyhoeddi'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr is-grŵp caffael cyhoeddus, llunio canllawiau y mae'n rhaid i'r CPG roi sylw iddynt wrth benodi aelodau, gan gynnwys canllawiau at ddiben sicrhau bod gan yr aelodaeth gynrychiolaeth briodol a'r gweithdrefnau i'w dilyn yn ystod cyfarfodydd. Mae'r adran hefyd yn nodi materion penodol y mae'n

		rhaid i'r gweithdrefnau sydd i'w cyhoeddi gan Weinidogion Cymru ymdrin â nhw; mae'r rhain yr un fath â'r rhai yr ymdrinnir â nhw yn y gweithdrefnau a bennir ac a gyhoeddir mewn perthynas â'r CPG llawn.
Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022	Adran 134(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu pa un ai i gymeradwyo corff neu unigolyn at ddibenion yr adran hon.	Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi'r ffactorau a fydd yn cael eu hystyried wrth gymeradwyo corff neu unigolyn y caniateir i'r wybodaeth gael ei rhannu ag ef.
Deddf Diogelu Data 2018	12(2) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol nodi drwy reoliadau...yr hyn y mae'n rhaid i'r canllawiau ei gynnwys.	Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu pennu'r hyn y mae'n rhaid i'r canllawiau ei gynnwys.



Additional information from the Association of Directors of Education in Wales following the meeting on 24 January

ADEW agreed to provide more detail on a potential opt out option under section 42 of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021.

The process for the disapplication of pupils from the curriculum is a complex one and the legislation is set out on HwB.

<https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/summary-of-legislation>

It would be my view that it would be a cumbersome mechanism to use and not necessarily appropriate for every young people who did not want to participate in a residential trip if that was made a mandatory by way of this Bill.

Eitem 4.13

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1SN

15 Chwefror 2024

Annwyl Jayne,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 19 Rhagfyr yn ceisio eglurder am y camau a arweiniodd at gau rhaglen beilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol ym mis Tachwedd y llynedd.

Rwyf wedi atodi yn **Atodiad A**, ymateb i'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn eich llythyr. Pan lanswyd y rhaglen beilot ddwy flynedd y llys ym mis Tachwedd 2021, roedd bob amser yn fwriad gennym brofi sut y gallai'r dull gweithredu hwn weithio yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor yn deall y bydd angen inni ystyried canlyniadau'r peilot yn ofalus cyn ymrwymo i unrhyw wasanaeth hirdymor. Ar ôl inni gwblhau'r dadansoddiad hwn, byddwn yn gallu penderfynu ai cyflwyno Llysoedd Teulu, Cyffuriau ac Alcohol fydd y model mwyaf addas a chost-effeithiol ar gyfer darparu cefnogaeth gynaliadwy i deuluoedd lle mae pryderon ynghylch camddefnyddio sylweddau.

Byddaf yn ysgrifennu eto at y Pwyllgor ynghylch ein cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, ar ôl ystyried y gwerthusiad o'r peilot yn fanwl gyda rhanddeiliaid allweddol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Julie'.

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Cwestiwn 1

A allwch chi gadarnhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn bresennol yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio Strategol FDAC yn rheolaidd a'u bod felly'n gwybod cyn y sesiwn dystiolaeth ar 14 Medi y byddai cynllun peilot FDAC yn dod i ben (neu'n debygol iawn o ddod i ben) ym mis Tachwedd 2023 o ystyried na fyddai Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i ymestyn y cynllun nes y gellid cwblhau'r gwaith gwerthuso?

Gallaf gadarnhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn bresennol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio Strategol FDAC. Pan lanswyd y rhaglen Beilot ym mis Tachwedd 2021, bu inni ddweud o'r cychwyn cyntaf y byddai'r peilot yn para am ddwy flynedd ac yn dod i ben wedyn ym mis Tachwedd 2023.

Adeg y sesiwn dystiolaeth graffu ar 14 Medi 2023, roeddem yn dal i geisio dod o hyd i gyllid i ymestyn y peilot nes i'r gwerthusiad gael ei gwblhau. Ni chawsom wybod am benderfyniad awdurdod lleol Caerdydd i gau'r peilot ond ar ôl iddo gael ei gyfleu i aelodau staff.

Cwestiwn 2

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 14 Medi, pam na soniwyd am y cais am gyllid i ymestyn y cynllun peilot, a'r posibilrwydd y byddai'r cais hwnnw'n cael ei wrthod, a goblygiadau hynny?

Ni chafodd ei godi yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 14 Medi am ein bod ni, fel yr amlinellwyd uchod, yn dal i weithio i ddod o hyd i gyllid ac roeddem yn obeithiol y gellid sicrhau hynny.

Cwestiwn 3

Cyn y sesiwn dystiolaeth ar 14 Medi, a gawsoch chi drafodaethau ag aelodau o'r farnwriaeth, a staff allweddol eraill a oedd ynghlwm wrth gynllun peilot FDAC, ynghylch eich penderfyniad i wrthod cais y cynghorau am gyllid ac i ddod â'r cynllun peilot i ben ym mis Tachwedd 2023? Os felly, pa drafodaethau oedd y rhain?

Cyn y sesiwn dystiolaeth ar 14 Medi, nid oedd cais y cyngor am gyllid wedi cael ei wrthod ac fel yr amlinellwyd uchod roeddem yn dal i ystyried y cais am gyllid ac yn ceisio dod o hyd i gyllid posibl o fewn ein cyllidebau. Daeth y cais hwn am gyllid ychwanegol i law yn hwyr yn y dydd.

Cwestiwn 4

A ydych chi'n credu bod y modd y gwnaeth Llywodraeth Cymru ac arweinwyr y cynghorau gyfathrebu â rhanddeiliaid ynghylch dod â'r cynllun peilot i ben wedi effeithio ar ewyllys da gweithwyr proffesiynol a oedd ynghlwm wrth FDAC, gan gynnwys aelodau o'r farnwriaeth ac, os felly, a yw wedi cael effaith niweidiol ar y siawns i'r cynllun lwyddo yn y dyfodol?

Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i gwestiwn 1, ni chawsom wybod am benderfyniad awdurdod lleol Caerdydd i gau'r peilot ond ar ôl iddo gael ei gyfleu i aelodau staff. Rydym yn cytuno y gallem fod wedi ymdrin â hyn yn well.

Cwestiynau 5 – 7 – Dyfodol FDAC yng Nghymru

Mae ein hymateb i argymhelliad 9 y Pwyllgor yn dal heb newid “Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu’r gwerthusiad o gynllun peilot Caerdydd a Bro Morgannwg i ystyried modelau cyflawni cynaliadwy ar gyfer cyflwyno cynllun o’r fath yn genedlaethol. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, aelodau o’r farnwriaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill i sicrhau bod partneriaid allweddol yn rhan o’r gwaith o gyngori ar y Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) yng Nghymru yn y dyfodol, a phennu eu cwmpas”.

Bydd y Pwyllgor yn deall y bydd angen inni ystyried canlyniadau gwerthuso'r peilot yn ofalus cyn ymrwmo i unrhyw wasanaeth hirdymor. Ar ôl inni gwblhau'r dadansoddiad hwn, byddwn yn gallu penderfynu ai cyflwyno Llysoedd Teulu, Cyffuriau ac Alcohol fydd y model mwyaf addas a chost-effeithiol ar gyfer darparu cefnogaeth gynaliadwy i deuluoedd lle mae pryderon ynghylch camddefnyddio sylweddau. Mae cynaliadwyedd yn hanfodol wrth ystyried cyflwyno hyn ac unrhyw wasanaeth yn y dyfodol a dyna pam yr oedd yn un o'r gofynion allweddol pan wnaethom wahodd datganiadau o fuddiant i ddatblygu'r cynllun peilot. Yn unol â'n hymateb, byddwn yn bwrw ymlaen â'r camau nesaf gan weithio gyda'n partneriaid, nid lleiaf y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol.

Un ystyriaeth allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol fydd rôl Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSTs). Mae'r gwasanaeth IFST yn ddarpariaeth sy'n unigryw i Gymru sy'n ceisio cefnogi anghenion teuluoedd sy'n agored i niwed mewn argyfwng lle mae camddefnyddio sylweddau gan rieni yn cael effaith ar les plant.